SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

The Rt Hon Suella Braverman MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2307

21 Mehefin/ June 2023

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

**Arolwg ar pa mor dda mae'r heddlu'n ymdrin â thrais ieuenctid difrifol.**

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar arolwg Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ar pa mor dda mae'r heddlu'n ymdrin â thrais ieuenctid difrifol.

Adolygodd yr arolygaeth ddeuddeg ardal heddlu wrth adolygu sut mae'r heddlu'n gweithio gyda'r unedau lleihau trais a sefydliadau partner er mwyn lleihau trais ieuenctid difrifol. Rhaid nodi nad oedd Heddlu Gogledd Cymru uno'r heddluoedd a arolygwyd. Roedd pedwar argymhelliad a nodwyd yn dilyn yr adolygiad gyda dau allan o'r pedwar yn cael eu cyfeirio at Brif Gwnstabliaid.

Ystyriodd y cyntaf y defnydd o Ganlyniad 22 ar gyfer trais ieuenctid difrifol er mwyn gwyro plant a phobl ifanc rhag y System Cyfiawnder Troseddol. Rwyf yn ymwybodol nad ydy hyn wedi'i wreiddio'n llawn o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae gwaith ar y gweill er mwyn asesu sut y gellir gwella hyn a pha hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen. Gwnaf fonitro cynnydd yr heddlu wrth gwblhau'r argymhelliad hwn o fewn y Bwrdd Gweithredol Strategol, y bwrdd lle rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

Gofynnodd yr ail argymhelliad i Brif Gwnstabliaid fod yr Heddlu'n sicrhau fod eu casglu a dadansoddi data yn deall y lefel o anghymesuredd hiliol mewn trais

Dear Home Secretary,

**Inspection into how well the police tackle serious youth violence**

As required by statue, I am writing to you with my comments on His Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service (HMICFRS) inspection of how well the police tackle serious youth violence.

The inspectorate reviewed twelve force areas when reviewing how the police work with the violent reduction units and partner organisations to reduce serious youth violence. It must be noted that North Wales Police was not one of the forces inspected. There were four recommendations identified following the review with two out of the four being referred to Chief Constables.

The first considered the use of Outcome 22 for serious youth violence to divert children and young people away from the Criminal Justice System. I'm aware that this isn't fully embedded within North Wales Police however, work is underway to assess how this can be improved and what additional training is required. I will monitor the Force's progress in completing this recommendation within the Strategic Executive Board where I hold the Chief Constable to account.

The second recommendation for Chief Constables requested that the Force ensure their data collection and analysis understands the level of racial

ieuenctid difrifol yn eu hardal heddlu. Nid oedd Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys trais ieuenctid fel endid ar wahân o fewn eu data anghymesuredd cyn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rwyf yn dawel fy meddwl fod hwn bellach wedi'i osod o fewn y bwrdd gwaith. Rwyf yn fodlon fod yr Heddlu wedi rhoi mesurau mewn lle er mwyn sicrhau fod y data hwn wedi'i ddal. Gwnaf adolygu'r data a gasglwyd fel rhan o'm craffu o'r Heddlu.

disproportionality in serious youth violence in their force area. North Wales Police didn’t include youth violence as a separate entity within their disproportionality data prior to this report however, I am reassured that this has now been embedded within the dashboard. I am content that the Force have put measures in place to ensure this data is now captured and I will review the data collected as part of my scrutiny of the Force.

Yn gywir

Yours sincerely

Andy Dunbobbin
Comisiynydd Heddlu / Police Commissioner

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489